Astudiaethau Uwchraddedig

mewn Hanes yn Aberystwyth

www.aber.ac.uk/history

Prifysgol Cymru
Aberystwyth
1872 The University of Wales

Cynnwys

Yr Adran Hanes a Hanes Cymru yn Aberystwyth 2
Adnoddau ymchwil i'r hanesydd yn Aberystwyth

Graddau ymchwil: MPhil a PhD 6

Cynlluniau gradd uwchraddedig trwy gwrs: MA 7

MA Astudiaethau Hanesyddol 8
i) Medieval Britain and Europe 8
ii) The British Isles, c.1536-1801 8
iii) Modern Britain (Political Culture) 9
iv) Modern Europe (Political Culture) 9
v) The History of Popular Culture 9
vi) Media History 9
vii) Celtic History 10
viii) Historians and the Making of History 10
ix) Heritage Skills 10

MA Hanes Cymru: 11
History of Wales
Hanes Cymru
The Social and Economic History of Wales

Gweithgareddau ymchwil ac adnoddau'r Adran 12
Grwpiau seminar a gweithgareddau
Adnoddau ymchwil
Hyfforddiant ymchwil
Neuaddau preswyl a llety
Arian
Myfyrwyr hŷn, dysgu o bell a rhan amser

Gwneud cais i Aberystwyth 14

Aelodau'r Adran a'u diddordebau ymchwil 20

Yr Adran Hanes a Hanes Cymru yn Aberystwyth

Cafodd Hanes ei ddysgu yn Aberystwyth ers sefydlu'r Brifysgol yn 1872. Mae'r Adran yn un o'r rhai mwyaf yn y Brifysgol, ac y mae diddordebau ymchwil y staff yn ymestyn ar draws yr amrediad cronolegol a daearyddol llawn, o gyfnod y Rhufeiniaid i faterion gwleidyddol cyfoes, ac o Gymru i Brydain i America, Ffrainc a Rwsia. Bu haneswyr fel Richard Cobb, R.R. Davies, Gwynne Lewis, R.F. Treharne a Gwyn Alf Williams yn arloesi ym maes diddordebau hanes cymharol, mewn 'hanes oddi isod', ac adeiladu gwladwriaethau yn Ynysoedd Prydain a Ffrainc yn Aberystwyth. Mae cenhedlaeth newydd o haneswyr wedi ychwanegu at ddiddordebau ymchwil yr adran mewn meysydd fel hanes y cyfryngau, diwylliant gwleidyddol, Iddewon yn y byd lle siaredir Saesneg, y werin yn y byd canoloesol, chwaraeon, hanes merched a rhywedd, hanesyddiaeth a defnyddio technegau cyfrifiadurol i astudio'r gorffennol.

Yn y cyfamser, mae Aberystwyth yn falch o gynnal ei safle hirsefydlog fel y prif ganolfan ddysgu ac ymchwil ym maes Hanes Cymru o'r cyfnod canoloesol hyd heddiw. Penodwyd y darlithydd cyntaf mewn Hanes Cymru yn 1910 ac y mae haneswyr adnabyddus fel E.A. Lewis, David Williams, W. Ogwen Williams, Ieuan Gwynedd Jones, J. Beverley Smith ac Aled G. Jones wedi dal swydd Athro Hanes Cymru Sir John Williams ers ei greu yn 1931. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru, sydd wedi ei lleoli yn Aberystwyth ers ei sefydlu yn 1909, yn gartref i'r casgliad mwyaf sy'n bodoli o ddeunyddiau yn gysylltiedig â hanes Cymru, o roliau llys canoloesol i Archif Sgrin a Sain Cenedlaethol Cymru. Mae'r adnoddau helaeth yn y Llyfrgell Genedlaethol ac mewn mannau eraill yn Aberystwyth yn rhoi cyfle heb ei ail i fyfyrwyr hanes Cymru ddilyn eu diddordebau ymchwil.

Bu'r Adran yn brif ganolfan ymchwil hanesyddol a dysgu ers dros can mlynedd. Mae'n mwynhau enw da sydd wedi hen sefydlu fel man lle gellir dilyn astudiaethau uwchraddedig, sy'n cynnig arolygiaeth gwych gan dîm adnabyddus o haneswyr, ac y mae ganddi gyfleusterau ymchwil heb eu hail o'i gymharu â'r rhan fwyaf o brifysgolion yn y DU. Rydym yn awyddus i recriwtio graddedigion mentrus a chreadigol o bob math o gefndiroedd, a rydym bob amser yn barod i ystyried yn ofalus gynigion ymchwil neu ymholiadau ynglŷn ag ymchwil.

Adnoddau ymchwil i'r hanesydd yn Aberystwyth

I'r hanesydd, mae Aberystwyth yn un o leoliadau ymchwil nodedig y DU, yn ogystal â bod y brif ganolfan ar gyfer astudio pob agwedd o hanes Cymru yn ei gyd-destunau Prydeinig, Ewropeaidd a rhyngwladol. Mae adnoddau llyfrau, cylchgronau ac archifau yn ymestyn ar draws nifer o lyfrgelloedd, gan gynnwys casgliadau anferth **Llyfrgell Genedlaethol Cymru**, unig lyfrgell hawlfraint Cymru ac un o bump llyfrgell hawlfraint yn unig ledled y DU. Ar wahân i gynnig mynediad uniongyrchol i bob cyhoeddiad hawlfraint a ddosbarthwyd yn y DU, mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn gartref i nifer o gasgliadau yn gysylltiedig ag Ynysoedd Prydain yn gyffredinol, ac o'r cychwyn bu'n brif storfa'r byd o archifau yn gysylltiedig â hanes Cymru, llawer ohonynt yn disgwyl i gael eu harchwilio'n fanwl. Yn ogystal â hynny, mae **Llyfrgell Hugh Owen** y Brifysgol ei hun yn gartref i fwy na 600,000 o gyfrolau a thros 3000 o gyfresi o gylchgronau, ar

wahân i nifer o gasgliadau ymchwil unigryw. Ar ben hynny mae nifer o lyfrgelloedd arbenigol sy'n darparu ar gyfer defnyddwyr mewn meysydd fel hanes amaeth, gwyddor archifau a gwybodaeth, astudiaethau pensaernïaeth ac archeoleg. Mae Aberystwyth yn gartref hefyd i nifer o sefydliadau sy'n cael eu harwain gan ymchwil a sy'n ddefnyddiol i haneswyr nifer o gyfnodau a diddordebau. Ar wahân i'r Llyfrgell Genedlaethol mae'r rhain yn cynnwys y **ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd; Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**; ac **Archifdy Ceredigion**.

Gallai darlun cryno o'r adnoddau sydd ar gael i gynorthwyo amrywiaeth eang o brosiectau ymchwil gynnwys, ar gyfer **y cyfnod canoloesol**, casgliad amhrisiadwy y Llyfrgell Genedlaethol o lawysgrifau, sy'n cynnwys cofnodion llys seciwlar ac eglwysig yn ogystal â phapurau llenyddol, teuluol a stadau. Ymhlith casgliadau'r Adran ei hun yn y maes hwn mae Cronfa Ddata Rholiau Llys Dyffryn Clwyd (sy'n cynnwys casgliad sylweddol o microffilm); mae'r prosiect hwn, sy'n cael ei ariannu gan yr ESRC, yn gyfrwng o bwys ar gyfer astudio Cymru yn niwedd yr Oesoedd Canol.

I haneswyr modern cynnar, mae archifau'r Llyfrgell Genedlaethol yn cynnwys cofnodion, nad ydynt wedi eu harchwilio i raddau helaeth, o Lysoedd y Sesiwn Fawr (yr hyn sy'n cyfateb i awdurdodaeth y Brawdlysoedd Saesneg), casgliadau helaeth o ddeunydd profebion, a chofnodion yr eglwys yng Nghymru. Ymhlith cofnodion eiddo tiroedd mae nifer o gasgliadau o bwys yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau. Ar wahân i'w chasgliad helaeth o lawysgrifau, mae gan y Llyfrgell Genedlaethol hefyd gopïau microffilm o'r brif gyfres Dogfennau Gwladol (1547-1782), Papurau'r Swyddfa

Gartref (1782-1820), a chofnodion Esgobol o'r drydedd ganrif ar ddeg hyd yr ail ganrif ar bymtheg, gan gynnwys deunydd archif o Lyfrgell Palas Lambeth. Ymhlith yr adnoddau sy'n cwblhau ei chasgliadau helaeth o lyfrau printiedig a llyfrynnau, mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn gartref hefyd i gasgliad cyflawn o bob Llyfr Saesneg Cynnar 1475-1700 ar microffilm; a Llyfrau o'r Ddeunawfed Ganrif; argraffiad cyflawn y 20,000 o Bamffledi Thomason ar gyfer 1640-60; a chasgliad o Lyfrynnau Gwleidyddol Ffrengig ar gyfer 1547-1648.

Ar gyfer y cyfnod modern mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn gartref i gasgliad helaeth o bapurau newydd a chylchgronau o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, o Gymru, Lloegr a thu hwnt (yn eu ffurf wreiddiol ac ar ficroffilm), a chasgliadau nodedig o lawysgrifau, darluniadau, mapiau a deunydd clywedol. Mae casgliadau microffilm yn amrywio o Gofnodion Cabinet i Lyfrau Cofnodion cymdeithasau'r Oweniaid 1838-1845; â chasgliadau arbennig ar Y Mewnfudwr yn America; ac Archifau Gwyddonwyr Prydain (British Men of Science). Delir casgliadau sylweddol o lên gwerin ac ethnograffeg amatur, megis papurau Tom Jones (o Drealaw, Rhondda), ac y mae casgliadau toreithiog i hwyluso ymchwil ar ddiwylliant poblogaidd yn gyffredinol, gan gynnwys papurau helaeth nifer o gerddorion Cymraeg a sylwebwyr ar y maes cerddorol Cymraeg fel papurau D. Emlyn Evans. Ym maes chwaraeon, mae llyfrau Cofnodion a Chyfrifon nifer o gyrff chwaraeon (gan gynnwys clybiau criced, tenis a golff) ar gael, ynghyd â chasgliadau helaeth o bapurau newydd.

I hanesydd yr ugeinfed ganrif, yn ogystal â'i chasgliad helaeth ei hun o bapurau newydd a llawysgrifau (gan gynnwys Papurau Lloyd George), mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi adeiladu casgliadau heb eu hail o gasgliadau archif o rannau eraill o Brydain ac ymhellach ar microfiche a microffilm. Yn eu plith mae archifau'r Pleidiau Rhyddfrydol, Ceidwadol a Llafur, yr ILP a Phlaid Cymru; mae deunydd yno hefyd o fudiad cenedlaethol yr Alban. Ymhlith y casgliadau ar drefn gyhoeddus ac amgylchiadau cymdeithasol ym Mhrydain y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif mae Terfysg Sifil, Siartiaeth a Therfysgoedd yn Lloegr y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg; Mudiadau Protest, Trefn Sifil a'r Heddlu ym Mhrydain rhwng y Rhyfeloedd; Gwrthdaro a Chydsyniad mewn Cysylltiadau Diwydiannol Prydeinig 1916-46; a'r Streic Gyffredinol 1926. Ymhlith deunyddiau o ganol yr ugeinfed ganrif mae casgliadau o Archif Arsylwad Torfol Tom Harrisson; Adroddiadau Cudd-wybodaeth Cartref y Weinyddiaeth Wybodaeth 1940-44; casgliad microffilm o Bapurau Newydd Poblogaidd yn ystod yr Ail Ryfel Byd; ac Adroddiadau Llywodraeth Milwrol yr Almaen (Parth



UDA), 1945-53. Ymhlith y deunyddiau sy'n gysylltiedig â hanes y cyfryngau torfol mae catalogau drama radio a theledu'r BBC 1923-75; a dalennau dosbarthu ffilmiau newyddion Prydenig 1913-70. Mae casgliadau microffilm newydd yn cael eu hychwanegu at gasgliadau'r Llyfrgell yn barhaus.

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gartref hefyd i **Archif Sgrin a Sain Cenedlaethol Cymru**. Mae'r fenter enfawr hon yn cynnwys dros 70,000 awr o fideo a ffilm teledu (sy'n cael ei ddiweddaru'n barhaus), a thros 40,000 awr o recordiadau sain a deunydd darllediadau radio, yn ogystal ag archif ffilm unigryw sy'n dyddio o'r cyfnod di-sain ymlaen; i bob pwrpas mae'n ymwneud ag unrhyw beth â chysylltiad â Chymru, ei hiaith, ei hanes a'i phobl, ac yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Sefydlwyd yr **Archif Wleidyddol Gymreig** yn y Llyfrgell Genedlaethol yn 1983 ac y mae'n cynnwys cofnodion helaeth yn gysylltiedig â phleidiau gwleidyddol Cymru, gan gynnwys y rhai hynny o Gymdeithasau Ceidwadol o ddechrau'r ugeinfed ganrif, a chofnodion y Blaid Lafur o 1937 ymlaen. Mae'r archif bleidiol fwyaf, eiddo Plaid Cymru, yn dyddio'n ôl i sefydlu'r blaid yn 1925. Yn ogystal â phapurau David Lloyd George a'i gyfoedion, mae'r Llyfrgell Genedlaethol hefyd yn dal papurau nifer o wleidyddion mwy diweddar, yn eu plith bedwar o bum deiliad swydd cyntaf Ysgrifennydd Gwladol Cymru: James Griffiths, Cledwyn Hughes (Arglwydd Cledwyn o Benrhos), George Thomas (Iarll Tonypandy) a John Morris; Clement Davies, Arweinydd y Blaid Ryddfrydol, Arglwydd Elwyn-Jones, Arglwydd Ganghellor 1974-9, Gwynfor Evans, Llywydd Plaid Cymru 1945-81, a Beata Brookes, ASE Ceidwadol dros Ogledd Cymru 1979-89, a nifer o AS fu'n gwasanaethu'n hir ar y meinciau cefn, gan gynnwys Leo Abse, Emlyn Hooson (yr Arglwydd Hooson), Ted Rowlands a Dafydd Wigley. Mae yno hefyd gofnodion o gymdeithasau fel Cyngor Cenedlaethol Cymru Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig, Undeb Cynghrair y Cenhedloedd gynt, 1923-56, a Chymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru, 1928-70au, a chofnodion a phapurau'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd a charfanau pwyso, er enghraifft, cofnodion a phapurau'r Ymgyrch Senedd i Gymru, 1953-6, cofnodion Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, a phapurau nifer o garfanau pwyso radical a chenedlgarol diweddar. Mae'r Archif Wleidyddol Gymreig yn cyhoeddi Cylchlythyr ddwywaith y flwyddyn.

Gallwch gael rhagor o fanylion am y casgliadau hyn yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru o wefan y Llyfrgell [http://www.llgc.org.uk], yn benodol ei safle Drych Digidol

[http://www.llgc.org.uk/drych/index_s.htm] a'i safle Trysorau [http://www.llgc.org.uk/drych/drych_s004.htm].

Mae prif lyfrgell y brifysgol ei hun, **Llyfrgell Hugh Owen** yn dal nifer o gasgliadau arbennig sy'n ychwanegu at adnoddau'r Llyfrgell Genedlaethol. I haneswyr sydd â diddordeb mewn gwleidyddiaeth Prydain, mae ganddi gasgliad helaeth o adroddiadau'r llywodraeth a chyhoeddiadau HMSO yn dyddio o dros gan mlynedd, ac wrth gwrs cyfres gyfan o Hansard. I haneswyr sydd â diddordeb yn yr UDA, mae adnoddau Llyfrgell Hugh Owen yn cynnwys y casgliad microffilm Early American Imprints, casgliad cyflawn o bopeth a argraffwyd yng Ngogledd America (ac eithrio papurau newydd) hyd at 1800. Am gyfnod Rhyfel Cartref America ac Ailymgorfforiad, mae'r Official Records of the Wars of the Rebellion, set gyflawn o gofnodion milwrol y Rhyfel Cartref a gyhoeddwyd; y Congressional Globe (1860-1873) a'r Congressional Record (1873-77), cofnod cyflawn o drafodion cyngresol yn ystod y blynyddoedd hyn; Ku Klux Klan Hearings (1871-72) Cyngres yr UDA, sy'n ddadlennol ynglŷn ag amgylchiadau cymdeithasol a gwleidyddol yn y de wedi'r rhyfel; ac argraffiadau microffilm o bapurau newydd a chylchgronau. Mae Llyfrgell Hugh Owen hefyd â chasgliadau ar microffilm o bapurau newydd De Affrica o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg



a'r ugeinfed ganrif, cofnodion Cymdeithas Genadol yr Eglwys, cofnodion consylaidd UDA, a phapurau o Lyfrgell Prifysgol Ibadan i gynorthwyo ymchwil ym maes hanes Affrica fodern. Yn y cyfamser, Llyfrgell Hugh Owen yw un o ddwy **Ganolfan Gofnodi Ewropeaidd** yn unig yng Nghymru, ac y mae'n derbyn y rhan fwyaf o gyhoeddiadau a gynhyrchir gan brif sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys testunau, adroddiadau ac ystadegau deddfwriaethol, ar amrediad cyfan o bynciau yn gysylltiedig â'r Undeb Ewropeaidd ac integreiddio Ewropeaidd. Mae ein chwaer-adrannau, Y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Ryngwladol, yn darparu rhagor o arbenigedd yn y maes hwn. Mae gan Lyfrgell Hugh Owen ei chasgliad papurau newydd ar microffilm hefyd a chasgliad mawr, sy'n parhau i dyfu, o adnoddau ar-lein gan gynnwys Archif Ddigidol gyflawn y *Times*. Gallwch ddod o hyd i fanylion llawn ar wefan y llyfrgell [http://www.voyager.aber.ac.uk].

Mae Aberystwyth mewn lle yr un mor dda i gynorthwyo ymchwil i hanes amrywiaeth eang o **gymunedau lleol**. Mae gan y Llyfrgell Genedlaethol gasgliadau anferth o bapurau plwyfi, teuluoedd, stadau a llywodraeth leol o gyfnod yr Oesoedd Canol diweddar ymlaen, yn gysylltiedig â Chymru a nifer o siroedd eraill ym Mhrydain. Mae **Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru**, â'i Archif Henebion Cenedlaethol wedi ei leoli yn Aberystwyth hefyd. Mae'r sefydliad hwn yn darparu cyfleusterau ar gyfer ymchwil i hanes y amgylchedd adeiledig o gyn-hanes pell ymlaen, gan gynnwys gwybodaeth a dadansoddiad yn gysylltiedig â safleoedd archeolegol ac amrywiaeth eang o adeiladau yng Nghymru o bob cyfnod. Mae gan **Archifdy Ceredigion**, a sefydlwyd yn y 1970au, ddeunydd helaeth yn gysylltiedig â gweinyddiaeth leol yn enwedig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, gan gynnwys Deddf y Tlodion ac addysg, yn ogystal ag archifau yn gysylltiedig â llongau ym mhorthladd Aberystwyth, a mwyngloddio i mewn yn y wlad yn Sir Aberteifi. Mae rhagor o ddeunydd gan gynnwys amrediad eang o arteffactau ar gael yn **Amgueddfa Ceredigion**, ac y mae amrywiaeth doreithiog o safleoedd a sefydliadau'n gysylltiedig â Threftadaeth yn yr ardal gerllaw lle gall myfyrwyr cyrsiau uwchraddedig Hanes, Archifau a Threftadaeth dynnu ar ddeunydd esboniadol ac arbenigedd proffesiynol.

Graddau Ymchwil: the M.Phil a Ph.D

Graddau wedi eu seilio ar ymchwil yw'r graddau MPhil a PhD, lle mae myfyrwyr yn ymgymryd â phrosiectau ymchwil unigol dan arolygiaeth academaidd agos oddi mewn i'r adran. Gellir eu hastudio amser llawn neu'n rhan amser. Fel rheol bydd yr **MPhil** yn cymryd blwyddyn o ymchwil amser llawn (dwy flynedd rhan amser), ac wedi hynny bydd myfyrwyr yn cwblhau ac yn cyflwyno traethawd estynedig o tua 60,000 o eiriau. Fel rheol bydd y **PhD** yn cymryd tair blynedd o ymchwil amser llawn (pum mlynedd rhan amser), ac wedi hynny bydd myfyrwyr yn cwblhau ac yn cyflwyno traethawd estynedig o 80-100,000 o eiriau. O'r herwydd mae hyd cyfan y radd (amser llawn) yn tueddu i fod tua dwy flynedd ar gyfer MPhil a rhwng tair a phedair blynedd ar gyfer PhD.

Anogir y rhai hynny sydd â diddordeb yn yr MPhil neu PhD i gysylltu â'r Tiwtor Derbyn Graddedigion yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru fel y gellir datblygu prosiect ymchwil ymarferol trwy drafod ag aelodau o'r staff. Mae diddordebau ymchwil cyfredol y staff wedi eu rhestru ar ddiwedd y daflen hon o dan **Aelodau'r Adran a'u diddordebau**, ac y mae aelodau o'r adran bob amser yn fodlon ystyried cynigion ymchwil sy'n gysylltiedig ag unrhyw agwedd ar y cyfnod y maent yn arbenigo ynddo, ac i drafod ag ymgeiswyr y ffynonellau a'r methodoleg priodol ar gyfer eu prosiect.

Graddau ymchwil uwchraddedig diweddar:

Rhestrir isod enghreifftiau esboniadol o raddau ymchwil a ddyfarnwyd gan yr Adran yn ddiweddar:

MPhil:

- The social and economic history of the parish of Penderyn, Breconshire, 1500-1851 (Ann Selwood, 2001)
- Making shift: independent single women in south-west Wales during the eighteenth century (Lesley Davidson, 2001)
- Bywyd a gwaith David Thomas, 1880-1967 (Angharad Tomos, 2000)
- Christian missions in the age of New Imperialism: the Church Missionary Society in Uganda (Scott Whitehouse, 2001)
- Change or continuity: the social composition of the Conservative Party 1900-1950 (Sarah Parkinson, 2001)

PhD:

- Society, government and power in the Lordship of Blakemore, north Shropshire c.1350-c.1420 (Francesca Bumpus, 1998)
- The representation of aggression in the seventeenth-century English broadside ballad (Sarah Todd, 1999)
- Aspects of female gentility in eighteenth-century North Wales (Simone Clarke, 1999)
- Welsh Methodism and the international evangelical revival 1735-1750 (David Ceri Jones, 2001)
- An early Imperial problem: Britain and Ireland 1750-1783 (Martyn Powell, 1997)
- The causes and effects of tourism in North Wales 1750-1850 (Peter H. Williams, 2000)
- The history of the Welsh Jewish communities, 1750 to the present (David Morris, 1999)
- Public health and the growth of local institutions in Wales c.1810-1914 (Owen Roberts, 2003)
- Pulpits, coalpits and fleapits: a social history of the cinema in Wales (Peter Miskell, 2000)
- The police in north Wales, c.1840-2000 (Henry K. Birch, 2002)

Ymhlith y pynciau sy'n cael eu hastudio ar gyfer PhD yn yr Adran ar hyn o bryd mae:

- Diwylliant poblogaidd yn yr Oesoedd Canol
- Cymdeithas ac economi ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg yng Nghymru
- Agweddau tuag at ferched yn Islam yn y Brydain fodern gynnar
- Tri phentref Cymreig: hanes Uwchaled, 1662-1812
- Robespierre a chreu ei ddelwedd wedi iddo farw
- Birmingham ac elwa ar adnoddau dŵr Cymru yn y 1890au
- Y Blaid Lafur yng Ngwynedd, 1900-1920
- Canfyddiadau Prydain o'r Almaen Natsïaidd
- Diwydiant hysbysebu Prydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd
- Defnyddio'r we a thechnoleg Flash i ddatblygu prosiect hanes cymunedol rhyngweithiol.

Cynlluniau gradd Uwchraddedig trwy gwrs: MA

Mae'r radd MA yn cynnig i fyfyrwyr gyfuniad o'r elfennau trwy gwrs yn ogystal â phrosiect ymchwil. Mae'r Adran Hanes a Hanes Cymru yn Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth o raddau MA trwy gwrs, sy'n cael eu cynnig trwy gyfrwng dau gynllun bras: yr MA mewn Astudiaethau Hanesyddol, a'r graddau MA mewn Hanes Cymru (gweler isod am ragor o fanylion), ac fe'u cynlluniwyd i ennyn diddordeb tri grwp o fyfyrwyr yn benodol:

- o y rhai hynny sy'n dymuno atgyfnerthu eu gwybodaeth a'u diddordebau hanesyddol presennol neu ymestyn y diddordebau hynny i gyfeiriad gwahanol,
- o y rhai hynny sy'n ystyried ymchwil pellach ar lefel PhD, a sy'n edrych am y sylfaen angenrheidiol mewn sgiliau ymchwil technegol uwch,
- o y rhai hynny sy'n bwriadu cychwyn ar yrfa mewn hanes neu waith sy'n gysylltiedig â threftadaeth.

Yn ystod eu hastudiaethau MA bydd myfyrwyr fel arfer yn cymryd modiwl craidd, dewis arbenigol, modiwl hyfforddiant ymchwil, ac yn ysgrifennu traethawd estynedig 20,000 o eiriau ar bwnc o'u dewis. Trwy gyfrwng y modiwlau hyn byddant yn derbyn hyfforddiant uwch o ran lleoli a thrin deunydd o ffynhonnell wreiddiol, holi ffynonellau a gwerthuso dehongliadau hanesyddol safonol, a byddant yn cael y cyfle i gynllunio, ymgymryd â phrosiect ymchwil estynedig a'i ysgrifennu dan arolygiaeth arbenigwyr. Mae modd cwblhau'r MA ymhen deuddeg mis o astudio amser llawn (a chaniateir hyd at flwyddyn ychwanegol i gyflwyno'r traethawd estynedig yn derfynol.

Mae'r MA yn addas ar gyfer myfyrwyr cartref, rhyngwladol, ac UE sydd â diddordeb yn y cyfnodau perthnasol o hanes, a sydd â'r cymwysterau priodol. Fel rheol bydd myfyrwyr ar ein cynlluniau gradd MA wedi ennill gradd israddedig ail ddosbarth uchaf neu ddosbarth cyntaf, neu'r hyn sy'n cyfateb, mewn hanes neu faes cysylltiedig. Rydym yn croesawu ymgeiswyr sydd ar eu trydedd flwyddyn o'u hastudiaethau israddedig sy'n dymuno mynd yn eu blaenau ar unwaith i MA yn ogystal â'r rhai hynny sy'n dymuno dychwelyd wedi egwyl oddi wrth fywyd prifysgol.

Cynlluniwyd holl gynlluniau gradd MA trwy gwrs yr adran i ddarparu'r elfennau angenrheidiol o hyfforddiant sgiliau sydd eu hangen gan y cyrff cenedlaethol canolog sy'n dyfarnu grantiau, ac y mae ymgeiswyr yn gymwys i wneud cais am y grantiau MA sy'n cael eu darparu'n ganolog gan Fwrdd Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau Academi Prydain (AHRB), a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC). Yn ogystal â hynny, mae'r ESRC yn cydnabod yr MA mewn Hanes Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (gweler isod) fel un o'i gyrsiau uwch, ac y mae grant ar gael ar ei gyfer ar sail cystadleuol. Mae pob un o'r cynlluniau gradd MA hyn wedi cael eu cynllunio'n benodol i ddiwallu gofynion cwrs Meistr mewn Paratoi Ymchwil fel y'i diffiniwyd gan yr AHRB, a thrwy hynny arfogi myfyrwyr i fynd yn eu blaenau hebio lefel Meistr i ymchwil PhD pe byddent yn dymuno gwneud hynny.

Mae modiwlau yn cael eu dysgu mewn grwpiau seminar bychan wythnosol neu bob bythefnos. Nodir y pwys a roddir i fodiwlau cydrannol yr MA gan nifer y credydau sydd wedi eu neilltuo i bob un. Mae'r MA fel cyfanwaith yn cynnwys 180 o gredydau, wedi eu rhannu rhwng Rhan Un (pedwar modiwl wedi eu dysgu trwy gwrs fel arfer, yn cynnwys 120 o gredydau i gyd), a Rhan Dau (un modiwl traethawd estynedig o 60 o gredydau), a bydd wedi ei drefnu fel a ganlyn fel rheol:

Rhan Un:

- Sgiliau ac adnoddau'r hanesydd (modiwl hyfforddiant ymchwil, yn cael ei gymryd gan bob myfyriwr hanes MA): 30 o gredydau
- Modiwl(au) craidd (yn benodol i gyfnod neu thema cynllun dewis MA y myfyriwr): 30 o gredydau
- Modiwl dewisol arbenigol (a ddewiswyd gan y myfyriwr o amrediad sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn): 30 o gredydau
- Paratoi traethawd estynedig (30 o gredydau)

Rhan Dau:

- Traethawd estynedig (60 o gredydau)

Mae asesu yn cael ei wneud yn yn y lle cyntaf trwy waith cwrs ysgrifenedig ar gyfer pob modiwl, ar ffurf traethawd yn bennaf. Gellir defnyddio profion byr hefyd yn y broses o ddysgu sgiliau penodol mewn paleograffeg, neu gyfrifiaduro er enghraifft.

Ym mhob cynllun MA mae'n rhaid llwyddo yn Rhan Un (h.y. y modiwlau trwy gwrs) a Rhan Dau (y modiwl Traethawd Estynedig) er mwyn cael yr MA. Bydd rhagoriaeth yn cael ei ddyfarnu i fyfyrwyr sy'n ennill marciau o 70 neu uwch yn Rhannau Un a Dau. Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau Rhan Un yn llwyddiannus ond nad ydynt yn dymuno mynd yn eu blaenau i gwblhau traethawd estynedig yn gymwys i dderbyn Diploma Uwchraddedig.

MA mewn Astudiaethau Hanesyddol

Mae'r MA mewn Astudiaethau Hanesyddol yn Aberystwyth yn cynnig y cyfle i fyfyrwyr ddilyn unrhyw un o naw maes penodol o astudiaeth ('llwybrau') ym maes hanes Prydain, Ewrop a'r byd. Mae'r llwybrau hyn yn tynnu ar y prif feysydd o arbenigedd ymchwil oddi mewn i'r Adran, ac fe'u cynlluniwyd i gyfannu'r amrywiaeth eang o adnoddau ymchwil sydd ar gael yn Aberystwyth ac i wneud y defnydd llawnaf ohono. Y naw llwybr sydd ar gael ar hyn o bryd yn yr MA mewn Astudiaethau Hanesyddol yw'r canlynol:

i) Medieval Britain and Europe
ii) The British Isles, c.1536-1801
iii) Modern Britain (Political Culture)
iv) Modern Europe (Political Culture)
v) The History of Popular Culture
vi) Media History
vii) Celtic History
viii) Historians and the Making of History
ix) Heritage Skills

Mae pob myfyriwr ar yr MA mewn Astudiaethau Hanesyddol yn cymryd y modiwl craidd MA 'Sgiliau ac adnoddau'r hanesydd', a'r modiwlau traethawd estynedig. Yn ogystal â hynny, mae gan y llwybr ei fodiwl craidd ei hun ac y mae'n cynnig dewislen benodol o fodiwlau dewisol. Darperir sgiliau ymarferol mewn cyfrifiaduro, ieithoedd (gan gynnwys Lladin, Cymraeg, Ffrangeg ac Almaeneg) a phaleograffeg fel bo'n briodol ar gyfer pob llwybr oddi mewn i fframwaith y modiwlau 'sgiliau a ffynonellau', a lle bo'n briodol mae peth dysgu ar y cyd lle y gall myfyrwyr sy'n dilyn dau neu fwy o lwybrau rannu trafodaeth seminar.

Mae'r disgrifiadau canlynol o bob llwybr Astudiaethau Hanesyddol yn nodi'r modiwlau craidd a dewisol sy'n cael eu cynnig ar gyfer pob llwybr yn Rhan Un. Sylwch os gwelwch yn dda na ellir cynnig pob modiwl dewisol bob blwyddyn a bod dewisiadau newydd yn cael eu cynnig yn rheolaidd yn wyneb diddordebau ymchwil sy'n datblygu ymhlith staff a myfyrwyr. Pan fo teitlau'r modiwlau yn cael eu rhoi yn y Gymraeg, y mae hyn yn dynodi y modiwlau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

(i) Medieval Britain and Europe

Mae'r llwybr hwn yn tynnu ar gryfderau sydd eisoes yn bodoli yn yr adran ym maes hanes Prydain o'r Goncwest Normanaidd i'r Diwygiad Protestannaidd, yn enwedig ei chryfder yn hanes Lloegr yn y drydedd ganrif ar ddeg, maes lle mae'r Adran yn cynnal cynhadledd ryngwladol flynyddol o fri. Mae'r llwybr hwn yn fodd i fyfyrwyr ymchwilio i hanes Prydain oddi mewn i gyd-destun Ewropeaidd ehangach, ac o gyfeiriadau thematig amrywiol (gan gynnwys hanes gwleidyddol, diwylliannol, economaidd, cymdeithasol a chrefyddol). Bydd yr amrediad cronolegol eang o fodiwlau sydd ar gael yn fodd i fyfyrwyr ddilyn eu diddordebau unigol, ac i ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r gorffennol canoloesol dan arweiniad arbenigwyr blaenllaw yn y maes.

Modiwl craidd:
England in context in the Long Thirteenth Century 1180-1350

Modiwlau dewisol:
- Representations of power in medieval Europe c.950-c.1300
- Peasant and community in late medieval England and Wales

(ii) The British Isles, c.1536-1801

Mae'r MA hwn yn rhoi'r cyfle i edrych mewn dyfnder ar y prosesau a'r gwrthdaro a luniodd yr hanes yng Nghymru, Lloegr, Iwerddon a'r Alban yn 'Deyrnas Gyfunol' gyfun yn y cyfnod modern cynnar. Mae modiwl craidd yn canolbwyntio ar weithredu dylanwad Seisnig ar draws 'Yr Ynysoedd' fel cyfanwaith, trwy briodasau llinachol ac uno deddfwriaethol, ac yn erbyn pwysau gwrthwynebiad crefyddol, diwylliannol a milwrol a gwrthryfela. Mae'r modiwlau dewisol yn rhoi'r cyfle i astudio themâu penodol gan gynnwys Hanes Diwylliannol Newydd y cyfnod; twf llythrennedd a'i effaith; a thirfeddiannaeth a chymdeithas yng Nghymru.

Modiwl craidd:
The making of a United Kingdom: the British Isles 1536-1801

Modiwlau dewisol:
- Tirfeddiannaeth a Chymdeithas yng Nghymru
- Women, gender and identities in the early modern British Isles
- Ireland and the 1798 rebellion

(iii) Modern Britain (Political Culture) and (iv) Modern Europe (Political Culture)

Mae'r ddau lwybr hwn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr astudio gwleidyddiaeth fodern Brydeinig ac Ewropeaidd dramor yn yr ystyr ehangaf trwy ganolbwyntio ar y thema o 'ddiwylliant gwleidyddol': llunio hunaniaethau gwleidyddol; yr ideoleg a'r meddylfryd a oedd yn nodweddiadol o gyfnod o wleidyddiaeth torfol; swyddogaethau demagogiaid neu ddylanwadu ar y cyfryngau; y profiadau, y traddodiadau a'r atgofion a oedd yn sail i gymunedau gwleidyddol arbennig a sut yr addaswyd neu y dyfeisiwyd defodau, symbolau ac iaith i'w mynegi; y berthynas rhwng dinasyddiaeth weithredol a grym y wladwriaeth. Bydd dewisiadau unigol yn edrych ar bynciau fel y cyfryngau a gwleidyddiaeth ym Mhrydain; y dosbarth gweithiol a'r Chwith yn Ewrop; diwylliannau gwleidyddol bourgeois; a gwleidyddiaeth mewn amgylchfyd cymdeithas wledig.

Modiwl craidd:
Political culture in modern Britain and Europe

Modiwlau dewisol:
- Party politics in modern Britain, 1832-1997
- Politics and war: the political culture of Britain 1939-45
- Political power and the media in Britain
- Diwylliant gwleidyddol a'r wasg boblogaidd yng Nghymru
- Dosbarth a chymuned yng Nghymru 1850-1939
- The European bourgeoisie: milieus, mentalities, politics, 1848-1950
- The working class and labour movements in Europe
- Landownership and power in modern Europe

(v) The History of Popular Culture

Mae'r llwybr hwn yn cynnig dull unigryw ac arloesol o astudio hanes ar lefel uwch, gan gyfuno hyfforddiant cysyniadol a methodolegol trylwyr ag amrediad eang o ddeunyddiau ffynhonnell, sy'n bwriadu ennyn diddordeb amrywiaeth o fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ystyried gyrfaoedd yn y meysydd dysgu, cyfathrebu neu'r cyfryngau, a'r rhai hynny sy'n gweithio tuag at ddatblygu cynllun PhD wedi hynny. Bydd y cynnwys yn cael ei ddwyn o faes daearyddol a chronolegol eang, o'r Uwch Ganol Oesoedd hyd heddiw. Ymhlith y dulliau sydd i'w harchwilio mae hanes llafar, y defnydd o ddelweddau gweledol, cyflwyniadau trwy gyfrwng cyfrifiaduron, ac ail-lunio cymunedau lleol ar ffurf 'micro-hanes'. Ymhlith y pynciau sy'n addas i'w harchwilio mae canu gwerin, canu corawl, ffilm, teledu a radio, chwaraeon a gemau, pensaernïaeth werinol, a swyddogaeth 'amaturiaid' a 'gweithwyr proffesiynol' yn y maes ymchwil hanesyddol.

Modiwl craidd:
Theory and methodology: the case for Culture

Modiwlau dewisol:
- Peasant and community in late medieval England and Wales
- 'Reading the signs': literacy, gesture and communication in early modern Europe
- Dosbarth a chymuned yng Nghymru 1850-1939
- Political power and the media in Britain

(vi) Media History (o 2004-05)

Mae'r llwybr newydd hwn, sy'n tynnu ar ddiddordebau ymchwil sydd wedi hen sefydlu ymhlith staff yn yr Adrannau Hanes a Hanes Cymru ac Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu yn Aberystwyth, wedi ei gynllunio'n benodol ar gyfer myfyrwyr sydd eisiau astudio materion yn ymwneud â'r cyfryngau mewn cyd-destun hanesyddol yn hytrach na chyd-destun sy'n hanfodol gyfoes neu ddamcaniaethol. Gan ganolbwyntio'n bennaf ar sefydliadau cyfryngau Prydeinig,

bydd yn cyflwyno myfyrwyr i rai o'r themâu pwysig y daethpwyd ar eu traws wrth astudio hanes y cyfryngau, yn ddamcaniaethaol a gwleidyddol, yn edrych ar y strwythurau gwleidyddol, cymdeithasol a deallusol sydd wedi llunio'r cyfryngau eu hunain ac agweddau haneswyr tuag at y cyfryngau, a sy'n parhau i wneud hynny, ac yn cynnig cyfle, dan arweiniad, i fyfyrwyr ddatblygu eu ddiddordebau ymchwil eu hunain yn y maes cymharol newydd hwn o ymchwil hanesyddol. Ein bwriad yw cynnig rhai elfennau yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Modiwl craidd:
The history of media history

Modiwlau dewisol:
- Political power and the media in Britain.
- War and the media
- Diwylliant gwleidyddol a'r wasg boblogaidd yng Nghymru
- Y Cyfryngau yng Nghymru

(vii) Celtic History (o 2004-05)

Mae'r llwybr MA newydd hwn yn adeiladu ar yr arbenigedd sydd wedi hen sefydlu yn yr Adran ym maes hanes y rhanbarthau Celtaidd, gan gynnwys Cymru a thu hwnt hefyd. Bydd yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ddilyn rhaglen astudio gyfunol ar agweddau Cymreig, Gwyddelig, Albanaidd, Cernywig a rhai eraill ar hanes Celtaidd o gyfnod y Rhufeiniaid hyd heddiw. Bydd myfyrwyr yn cael gwybodaeth hanesyddol am ranbarthau a diwylliannau Celtaidd, ac yn bwrw golwg ar yr amgylchiadau gwleidyddol a chymdeithasol a oedd yn bodoli mewn cymunedau yn amrywio o'r cyfnod cyn-ganoloesol i'r ôl-ddiwydiannol.

Am ragor o wybdoaeth am fodiwlau craidd a dewisol yn y llwybr hwn, cysylltwch â'r Adran os gwelwch yn dda.

(viii) Historians and the Making of History (o 2004-05)

Rydym yn byw mewn diwylliant lle mae hanes yn disodli'r cof fwyfwy - yn cael ei drosglwyddo ar lafar, trwy deuluoedd a chymunedau sefydlog - fel ffynhonnell hunaniaeth. Heddiw, mae ymwybyddiaeth pobl o'r gorffennol yn cael ei greu trwy'r teledu, y sinema a'r diwydiant treftadaeth. Wrth iddynt feddwl am eu safle eu hunain mewn perthynas â'r 'diwylliant hanesyddol' hydreiddiol hwn, mae haneswyr mewn prifysgolion wedi myfyrio fwyfwy ynglŷn â datblygiad eu disgyblaeth eu hunain. Ni fu erioed gymaint o ddiddordeb mewn hanes ymchwil ac ysgrifennu hanesyddol, a chynlluniwyd y llwybr MA newydd hwn mewn Astudiaethau Hanesyddol i ddiwallu'r diddordeb hwn. Bydd y modiwl craidd yn dechrau trwy edrych ar y modd y mae cymdeithasau'r gorffennol wedi defnyddio'r gorffennol, o hynafiaeth glasurol hyd ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Sut lluniwyd hanes, gan bwy ac i bwy, ac ym mha fathau o gyd-destun diwylliannol a sefydliadol? Beth sydd wedi newid yng ngwaith haneswyr, a beth sydd wedi parhau'n hanfodol ddigyfnewid? Bydd dewisiadau yn fodd i fyfyrwyr ddatblygu diddordebau mwy arbenigol – er enghraifft mewn haneswyr canoloesol, yn nharddiad a thwf byd-eang y proffesiwn hanes cyfoes, ac yn arbennig mewn genres penodol o ysgrifennu hanesyddol.

Am ragor o wybodaeth am fodiwlau craidd a dewisol yn y llwybr hwn, cysylltwch â'r Adran os gwelwch yn dda

(ix) Heritage Skills

Mae'r llwybr hwn yn wahanol i'r llwybrau Astudiaethau Hanesyddol eraill am ei fod yn canolbwyntio ar y cysyniad o 'Dreftadaeth', sy'n cael ei archwilio o amrywiaeth o gyfeiriadau mewn dau fodiwl thematig penodol yn hytrach nag mewn modiwl craidd a dewisol. Mae'n darparu'r sgiliau ymarferol a'r ymwybyddiaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i weithio â deunyddiau hanesyddol mewn amrediad eang o swyddi sy'n gysylltiedig â Threftadaeth, boed hynny'n uniongyrchol, o ran swyddi hyfforddi graddedigion mewn amgueddfeydd a/neu safleoedd a sefydliadau treftadaeth, neu'n anuniongyrchol mewn meysydd fel twristiaeth, gwasanethau diwylliannol awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol a'r cyfryngau. Gall hefyd fod yn sail i waith ymchwil uwchraddedig pellach. Mae'r cwrs yn cynnig cyfuniad arbennig o fodiwlau, gan gynnwys trin a dehongli ffynonellau hanes lleol, sgiliau TG, gwleidyddiaeth ac economi Treftadaeth, a sgiliau iaith. Mae gwaith prosiect a thraethawd estynedig yn chwarae rhan bwysig yn y cwrs, sydd hefyd yn cynnwys cyfraniad dysgu gan weithwyr proffesiynol gweithredol, yn ogystal ag ymweliadau astudio a gofynion lleoliad.

Modiwlau thematig:
- Heritage concepts, sources and the historiography of local history
- Heritage organisations and the presentation of the past requirement.

Cyrsiau MA ar Hanes Cymru

Mae gan Aberystwyth draddodiad nodedig fel canolfan Hanes Cymru, ac y mae arbenigedd yr Adran heb ei ail. Mae'r Adran yn cynnig dau MA penodol yn Hanes Cymru, a gellir astudio y rhain yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddau yn tynnu ar adnoddau ymchwil sylweddol Aberystwyth i roi cyfleoedd heb eu hail i fyfyrwyr Hanes Cymru i ddilyn eu diddordebau ymchwil.

MA History of Wales/Hanes Cymru

Bwriad yr MA hwn yw rhoi cyfle i wneud astudiaeth uwch o'r prif themâu yn Hanes Cymru, ynghyd â pharatoi a chwblhau darn sylweddol o ymchwil gwreiddiol yn y maes. Bydd myfyrwyr sy'n cymryd yr MA hwn yn cymryd y modiwl hyfforddiant ymchwil gorfodol 'Sgiliau a ffynonellau'r hanesydd' a'r modiwlau Traethawd Estynedig, ond yn lle modiwl craidd ar bwnc penodol a modiwl dewisol byddant yn dewis unrhyw ddau fodiwl dewisol yn lle hynny (30 o gredydau yr un).

Modiwlau dewisol:

- Cymru a'r Sistersiaid
- Traddodiad ac Arloesi yng Nghymdeithas a Diwylliant Cymru
- Tirfeddiannaeth a Chymdeithas yng Nghymru
- Dosbarth a Chymuned yng Nghymru 1850-1939
- Sefydliadau Gwleidyddol a Chymdeithas Gymraeg 1880-1980
- Diwylliant Gwleidyddol a'r Wasg Boblogaidd yng Nghymru

MA Social and Economic History of Wales

Mae'r cynllun MA hwn yn cynnig hyfforddiant trylwyr yn y sgiliau a'r ffynonellau sy'n ganolog i ymchwilio i hanes economaidd a chymdeithasol Cymru. Mae'r pwyslais ar dechnegau, ac ar gysyniadoli'r ymchwil, yn gryf a bydd myfyrwyr yn astudio rhai modiwlau ochr yn ochr â myfyrwyr o ddisgyblaethau gwyddorau cymdeithasol eraill. Er bod cwmpas y prosiect traethawd estynedig hwn yn gymharol gyfyngedig, mae'r cwrs fel cyfanwaith wedi ei gynllunio i roi sylfaen gref ar gyfer prosiectau ymchwil pellach, ac fel y cyfryw mae'n cael ei gydnabod i ddibenion Hyfforddiant Ymchwil gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, prif gorff nawdd. Gan fod y cynllun MA hwn yn rhoi pwyslais penodol ar hyfforddiant ymchwil, mae ei strwythur yn gwahaniaethu rhwng cynlluniau MA eraill sy'n cael eu cynnig gan yr Adran, gan y bydd myfyrwyr yn cymryd 90 credyd o fodiwlau hyfforddiant ymchwil ac un dewis 30 o gredydau yn Rhan Un, yna modiwl Traethawd Estynedig yn Rhan Dau.

Modiwlau craidd:

- Research training (60 o gredydau)
- Theory and methodology (30 o gredydau)

Modiwlau dewisol:

- Tirfeddiannaeth a chymdeithas yng Nghymru
- Dosbarth a chymuned yng Nghymru
- Sefydliadau treftadaeth a chyflwyno'r gorffennol

Gweithgareddau ymchwil a chyfleusterau'r Adran

Mae gan yr Adran Hanes a Hanes Cymru yn Aberystwyth ddiwylliant ymchwil bywiog lle'r anogwn uwchraddedigion ar bob lefel i gymryd rhan.

Grwpiau seminar a gweithgareddau:

Mae'r seminarau adrannol ar gael mewn tri ffurf:

(1) Cynhelir y **seminar gyda'r** nos fel y'i gelwir, cyfres reolaidd o seminarau ymchwil ar gyfer staff ac uwchraddedigion, gydol y sesiwn ac y mae'n cynnwys siaradwyr gwadd o brifysgolion eraill yn rheolaidd, yn ogystal â siaradwyr o'r Adran, yn trafod eu gwaith ymchwil diweddaraf. Anogir myfyrwyr PhD blwyddyn olaf hefyd i gyflwyno papur yn y seminar hwn. Dilynir y seminarau hyn, sy'n dechrau am 5 o'r gloch fel arfer, gan ddiodydd a swper lle mae croeso i bawb.

(2) **Seminar awr ginio** a gynhelir yn ystod yr ail semester fel fforwm i drafod gwaith ymchwil uwchraddedig sydd ar y gweill.

(3) Cynhelir cyfres fer o seminarau, **y colociwm MA**, lle mae pob myfyriwr MA yn cyfrannu papur yn ystod yr ail semester i drafod gwaith traethodau estynedig MA.

Anogir myfyrwyr uwchraddedig hefyd i fynychu seminarau mewn adrannau eraill, ac yn y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, sydd wedi ei leoli y drws nesaf i'r Llyfrgell Genedlaethol. Bydd grwpiau seminar ad hoc yn cyfrafod o bryd i'w gilydd hefyd. Bydd Aberystwyth yn cynnal cynadleddau academaidd yn rheolaidd yn ogystal.

Cyfleusterau ymchwil:

Mae gan bob myfyriwr uwchraddedig fynediad i gyfleusterau ffacs, ffotocopïo a phostio'r Adran. Neilltuir ystafelloedd astudio un pwrpas yn yr Adran, lle gall myfyrwyr weithio a lle gellir gadael llyfrau a deunyddiau eraill, ar gyfer myfyrwyr uwchraddedig. Gall myfyrwyr gadw ystafelloedd astudio bychan hefyd yn Llyfrgell Hugh Owen. Mae mynediad uniongyrchol 24 awr ar gael i gyfleusterau cyfrifiadurol mewn ystafelloedd terfynellau cyfrifiadurol sydd wedi eu lleoli mewn nifer o safleoedd ar draws y campws ac yn neuaddau'r brifysgol.

Hyfforddiant ymchwil:

Yn ogystal â modiwlau sgiliau a hyffordiant ymchwil yr Adran ei hun, mae amrediad llawn o gyrsiau hyfforddiant ymchwil y brifysgol ar gael i fyfyrwyr ar bob lefel o astudiaeth uwchraddedig (MA, MPhil a PhD), a'r ddarpariaeth wedi ei rhannu rhwng adrannau a chyfadrannau. Gallwch ddod o hyd i fanylion cyrsiau rhwng cyfadrannau ar y we trwy gyswllt y Swyddfa Astudiaethau Uwchraddedig i Hyfforddiant Ymchwil [http://www.aber.ac.uk/postgrads/research-training.html].

Neuaddau preswyl a Llety

Mae gan Aberystwyth amrywiaeth eang o lety i weddu i raddedigion o bob chwaeth. Gallwch wneud ymholiadau yn y lle cyntaf trwy wasanaeth Llety'r brifysgol: ffôn (01970) 622772/3; e-bost accommodation@aber.ac.uk.

Nawdd

Nawdd yw un o'r prif broblemau sy'n wynebu myfyrwyr uwchraddedig arfaethedig. Mae gan yr Adran Hanes a Hanes Cymru draddodiad cryf o ddarparu nawdd ar gyfer ei myfyrwyr.

Anogir myfyrwyr i wneud cais i **Fwrdd Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau** (AHRB) neu'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymeithasol** (ESRC), sy'n cynnal cystadlaethau blynyddol am nawdd ar gyfer MA a PhD. Mae'r Adran Hanes a Hanes Cymru hefyd yn cynnig nifer o **fwrsarïau MA** i fyfyrwyr MA, o rhwng £500 a £1500. Fel arfer bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn rhai sydd wedi cael gradd Dosbarth Cyntaf ar lefel israddedig ond na fu'n llwyddiannus yn cael nawdd o unrhyw le arall. Mae Prifysgol Cymru Aberystwyth yn cynnig nifer o **ddyfarniadau PhD** y Brifysgol bob blwyddyn i fyfyrwyr o bob adran o'r brifysgol. Anogwn fyfyrwyr Hanes yn gryf i wneud cais am y dyfarniadau hyn. Anogwn fyfyrwyr PhD yn yr Adran i ymgymryd â swm cyfyngedig o **waith dysgu** israddedigion am dâl lle bynnag y bo hynny'n ymarferol wedi eu blwyddyn gyntaf.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am arian uwchraddedig o'r Adran, Swyddfa Derbyn Graddedigion, a thrwy http://www.aber.ac.uk/pga/web/links.htm

Myfyrwyr hyn, dysgu o bell a rhan amser

Mae'r Adran Hanes a Hanes Cymru wedi croesawu ceisiadau oddi wrth fyfyrwyr hŷn erioed, o fyfyrwyr sydd eisiau astudio gyda ni ond sydd â'u cartrefi yn bell o Aberystwyth o angenrheidrwydd, a chan fyfyrwyr sydd eisiau astudio'n rhan amser. Rydym yn falch o'n traddodiad o alluogi'r myfyrwyr hyn i ddilyn, ac i gwblhau'n llwyddiannus, eu graddau uwchraddedig.

Aelodau'r Adran a'u diddordebau

Mae'r wybodaeth gryno ganlynol ar aelodau'r Adran yn nodi'n fras beth yw eu diddordebau ymchwil a'r mathau o bynciau y maent yn fodlon eu harolygu. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth, gan gynnwys manylion cyhoeddiadau a phrosiectau ymchwil, ar wefan yr adran [http://www.aber.ac.uk/history].

Dr Richard Coopey

Mae Dr Richard Coopey, BA, MA, PhD (Warwick), FRHistS, FRSA [rcc@aber.ac.uk] yn arbenigo mewn hanes cymdeithasol ac economaidd Prydain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, â diddordebau ymchwil arbennig yn hanes technoleg, hanes bancio a hanes adwerthu. Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol ac yn Gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau, a bu'n lywydd y Gymdeithas Hanes Dŵr Ryngwladol 2000-2003. Ef yw awdur (gyda Donald Clarke) 3i: Fifty Years Investing in Industry (1995); (gyda Dil Porter a Sean O'Connell) Home Shopping In Britain: A Business and Social History (2004), golygydd IT Policy History: International Perspectives (2004); cydolygydd Britain in the 1970s: The Troubled Economy (1996); The Wilson Governments, 1964-1970 (1993); Defence Science and Technology (1992). Mae Dr Coopey yn croesawu cynigion ymchwil ym meysydd hanes cymdeithasol ac economaidd y Brydain fodern, a hanes technoleg.

Dr Jeffrey Davies

Archeolegydd yw Dr Jeffrey Davies, BA, PhD (Cymru), FSA [jld@aber.ac.uk] yn arbenigo mewn cynhanes Prydeinig diweddar a'r cyfnod Brythonaidd-Rufeinig, gan gyfeirio'n arbennig at Gymru a'r Gororau. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn canolbwyntio yn arbennig ar y fyddin Rufeinig, gan gyfeirio'n benodol at y berthynas rhyngweithiol rhwng y fyddin a dinasyddion preifat. Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Hynafiaethau, Is-gadeirydd ac yn Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys, ac yn Ymddiriedolwr ac aelod o Bwyllgor Rheoli Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed. Ymhlith ei gyhoeddiadau mae (gyda B.C. Burnham) Conquest, Co-Existence and Change. Recent work in Roman Wales (1991); (gyda P.J. Casey) Excavations at Segontium (Caernarfon) Roman Fort 1975-79 (1993); (gyda D.P. Kirby) Cardiganshire County History. Vol. I. From the Earliest Times to the Coming of the Normans (1994); (gyda S. Aldhouse-Green a F. Lynch) Prehistoric Wales (2000); (gyda C. Arnold), Roman and Early Medieval Wales (2000), a (gyda R. H. Jones) Roman Camps in Wales & the Marches (ar y ffordd yn 2004). Mae Dr Davies yn hapus i arolygu ymchwil ar bob agwedd o archeoleg byddin Rhufain, ac archeoleg y mileniwm cyntaf CC, gan gyfeirio'n arbennig at Gymru.

Dr Susan Davies

Mae gan Dr Susan Davies, BA, PhD (Cymru), Dip Pal & Archive Admin (Cymru) [sud@aber.ac.uk] brofiad eang o ddysgu ar lefel uwchraddedig ym meysydd paleograffeg, dadansoddi llawysgrifau ac astudio archifau. Mae ei diddordebau ymchwil ym maes hanes canoloesol a hanes lleol pob cyfnod, yn arbennig lleoliad, defnydd a dadansoddi deunydd crai llawysgrifol. Mae'n chwarae rhan allweddol yn y broses o lunio polisiau archifol a threftadaeth ar lefel genedlaethol fel Is-lywydd Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ac aelod o'r Cyngor Cynghori ar Gofnodion ac Archifau Cendlaethol. Ymhlith ei chyhoeddiadau mae cyfraniadau i'r Journal of the Society of Archivists ac i J. Rowlands a S. Rowlands (gol.), Second Stages in Researching Welsh Ancestry (1999). Mae ei gwaith ymchwil cyfredol yn cynnwys gwaith golygyddol ar gofnodion y Cartref a Dilladau yn ystod cyfnod Edward I fel rhan o brosiect grŵp mewn cydweithrediad â'r Archifdy Gwladol.

Dr Robert Harrison

Mae gan Dr Robert Harrison, MA, PhD (Cantab) [rxh@aber.ac.uk] ddiddordebau ymchwil mewn hanes America yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, ac yn Rhyfel Cartref America ac Ailymgorfforiad. Mae ei brosiect ymchwil cyfredol yn astudio Washington, D.C. yn ystod y Rhyfel Cartref ac Ymgorfforiad. Ef yw awdur State and Society in Twentieth-Century America (1997); mae wedi cyhoeddi erthyglau hefyd mewn cylchgronau hanesyddol gan gynnwys y Journal of Urban History a American Nineteenth Century History. Ymhlith cyhoeddiadau sydd ganddo ar y ffordd mae Congress, Progressive Reform, and the New American State (2004), a thraethodau yn Phillipp Schofield a Peter Lambert (gol.), Making History: An Introduction to the History and Practices of a Discipline (2004). Mae Dr Harrison wedi arolygu ymchwil uwchraddedig a doethurol ar amrywiaeth o bynciau yn gysylltiedig â hanes cymdeithasol a gwleidyddol America yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r ugeinfed ganrif, ac y mae'n croesawu cynigion ymchwil ar gaethwasiaeth a chysylltiadau hiliol, Rhyfel Cartref America ac Ailymgorfforiad, gwleidyddiaeth ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a mudiadau diwygio ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yn benodol

Dr Sharon Howard

Mae Dr Sharon Howard, BA, PhD (Cymru) [skh@aber.ac.uk] yn ymchwilio ym maes hanes modern cynnar Cymru a Phrydain. Yn ddiweddar cwblhaodd ei PhD ar 'Trosedd, cymuned ac awdurdod yn y Gymru fodern gynnar: Sir Ddinbych, c.1660-1730' yn Aberystwyth dan arolygiaeth Dr Michael Roberts, ac y mae bellach yn dal Cymrodoriaeth Ymchwil Ôl-ddoethuriaeth yr Academi Brydeinig yn yr Adran, gan astudio trosedd ac anhrefn yng Ngogledd Cymru a'r ffiniau Saesneg yn y cyfnod modern cynnar. Mae wedi cyhoeddi erthyglau yn y Welsh History Review a Social History of Medicine, ac y mae'n awdur dwy wefan bwysig ar adnoddau hanes y cyfnod modern cynnar, ar http://www.earlymodernweb.org.uk/index.html a http://shhistory.port5.com/

Dr R. Gerald Hughes

Mae Dr R. Gerald Hughes, BA (Stirling), MSc (Econ), PhD (Cymru) [rgh@aber.ac.uk] yn hanesydd rhyngwladol ym maes yr ugeinfed ganrif, gan arbenigo mewn diplomyddiaeth Brydeinig a pholisi tramor; y berthynas Eingl-Almaenig ers 1900; polisi tramor yr UDA ers 1914 a hanes rhyngwladol y Rhyfel Oer. Mae ei ymchwil cyfredol yn canolwbyntio ar détente, diplomyddiaeth a maes hanes cudd-wybodaeth sy'n datblygu ar hyn o bryd. Mae'n aelod o'r grŵp Astudio ar Gudd-wybodaeth, ac yn olygydd eu cylchgrawn, ac y mae'n awdur ymgynghorol ar gyfer Grŵp Gwybodaeth Jane's ag arbenigedd yn y maes asesu bygythiad yng Ngorllewin Ewrop gyfoes. Ymhlith ei gyhoeddiadau diweddar mae erthyglau ar Blaid Lafur Prydain a Gorllewin yr Almaen wedi'r Ail Ryfel Byd a mater ffiniau'r Almaen ers Ewrop yn ystod y Rhyfel Oer; ymhlith y cyhoeddiadau sydd ar y gweill mae monograff, Britain and the Search for European detente, 1945-1970, pennod ar Brydain yn y Dwyrain Canol Britain, a chasgliad wedi ei olygu o ddogfennau allweddol yn hanes cudd-wybodaeth (ar ei ffordd yn 2004). Mae Dr Hughes yn hapus i arolygu gwaith uwchraddedig mewn amrywiaeth eang o feysydd hanes rhyngwladol a hanes gwleidyddol Prydain yn yr ugeinfed ganrif; gan gynnwys: y berthynas Eingl-Almaenig yn yr ugeinfed ganrif; yr Ail Ryfel Byd; y Rhyfel Oer; polisi tramor Prydain yn yr ugeinfed ganrif; hanes diplomyddiaeth; polisi tramor yr UDA ers 1914; hanes milwrol yn yr ugeinfed ganrif; hanes gwleidyddol Prydain ers 1900 a hanes cudd-wybodaeth.

Professor Aled G. Jones

Yr Athro Aled G. Jones, BA (York), MA, PhD (Warwick), FRHistS [agj@aber.ac.uk], yw'r Athro Hanes Cymru Syr John Williams. Mae ei brif ddiddordebau ymchwil ym maes hanes y Gymru fodern, hanes y wasg ym Mhrydain, a chrefydd ac imperialaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Ef yw Cyfarwyddwr Llenyddol (Modern) y Gymdeithas Hanes Frenhinol, ac y mae'n aelod o fwrdd golygyddol cyfres 'Studies in History' y Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol; mae hefyd yn gydolygydd Cylchgrawn Hanes Cymru, ac y mae'n aelod o fyrddau golygyddol y cylchgronau Media History a Victorian Periodicals Review. Mae'r rhan fwyaf o'i ymchwil sydd wedi ei chyhoeddi wedi canolbwyntio ar agweddau o hanes newyddiaduraeth yng Nghymru a Lloegr ers c. 1800, ac y mae'n cynnwys Press, Politics and Society. A History of Journalism in Wales (1993); Powers of the Press. Newspapers, power and the public in nineteenth-century England (1996), a (gyda Bill Jones) Welsh Reflections. Y Drych and America, 1851-2001 (2001). Ymhlith ei waith diweddar mae erthyglau yn Victorial Periodicals Review a'r Journal of Imperial and Commonwealth History, yn ogystal â phenodau mewn amrediad o gasgliadau wedi eu golygu, gan gynnwys Julie F. Codell (gol.), Imperial Co-Histories: National Identities and the British and Colonial Press (2003) (ar newyddiaduraeth genhadol Gymraeg), Geraint Jenkins (gol.), Essays Presented to Kenneth O. Morgan and Ralph Griffiths (2004) (ar y Cymry yn yr India), Robert Phillips a Helen Brocklehurst (gol.), The Idea of Wales:History, Identity and Nationhood (2004), rhan o 'Raglen Datganoli a Newid Cyfansoddiadol' yr ESRC (ar ddiwylliant argraffu a ffurfio hunaniaethau Cymreig), a 'The Press and the Printed Word', yn C.Williams (gol.), The Blackwell Companion to Nineteenth Century Britain (2004). Mae'r Athro Jones wedi arolygu ymchwil uwchraddedig a doethurol yn y Gymraeg a'r Saesneg ar agweddau o hanes gwleidyddol a diwylliannol; crefydd; a grym trefedigaethol Prydeinig, ac y mae'n croesawu cynigion ymchwil newydd yn y meysydd hyn a rhai sy'n gysylltiedig â hwy.

Dr Peter Lambert

Mae gan Dr Peter Lambert, MA (Cantab), DPhil (Sussex) [pal@aber.ac.uk] ddiddordebau ymchwil mewn hanesyddiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif a hanes yr Almaen fodern, yn benodol yr Weriniaeth Weimar a'r Almaen yng nghyfnod y Natsïaid. Mae'n aelod o Fwrdd Canolfan Brydeinig Astudiaethau Hanesyddol yn

yr Almaen a Sefydliad Hanes Max Planck yn Göttingen, a Bwrdd Canolfan Astudiaethau Ffiniau ym Mhrifysgol Morgannwg. Ymhlith ei gyhoeddiadau diweddar mae (gyda Stefan Berger a Peter Schumann, gol.) Historikerdialoge (2003), casgliad o draethodau yn y Saesneg a'r Almaeneg ar y cysylltiadau Eingl-Almaenig, a 'The Professionalisation and Institutionalisation of History, 1850-2000' yn Stefan Berger et al. (gol.), Writing History. Theory and Practice (2003). Ymhlith y cyhoeddiadau sydd ar eu ffordd mae (gyda Phillipp Schofield, gol.), Making History: An Introduction to the History and Practices of a Discipline (2004), ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar fonograff ar y Weriniaeth Weimar. Mae Dr Lambert wedi arolygu ymchwil uwchraddedig a doethurol ar amrywiaeth o bynciau'n ymweud â chysylltiadau Eingl-Almaenig, Natsïaeth, a hanes gwleidyddol a chymdeithasol yr Almaen fodern a Dwyrain Canol yr Almaen, ac y mae'n hapus hefyd i arolygu ymchwil ar hanesyddiaeth fodern, yn arbennig Prydain a Gorllewin Ewrop: astudiaethau bywgraffyddol o haneswyr unigol, proffesiynoli a sefydliadoli hanes, rhwydweithiau ac ysgolion o haneswyr, ac ati.

Dr Siân Nicholas

Mae Dr Siân Nicholas, MA (Cantab), MA (Chapel Hill), DPhil (Oxon), FRHistS [shn@aber.ac.uk] yn arbenigo mewn hanes gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol Prydain, ac y mae ganddi ddiddordebau ymchwil penodol yn hanes y cyfryngau, yn enwedig radio, c.1922-1950, profiad Prydain yn yr Ail Ryfel Byd, ac agweddau ar Americaneiddio diwylliant Prydain. Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Hanes Frenhinol ac yn olygydd adolygiadau'r cylchgrawn Twentieth Century British History. Hi yw awdur The Echo of War: Home Front Propaganda and the Wartime BBC (1996), ac y mae wedi ysgrifennu'n helaeth ar agweddau o ddarlledu a diwylliant a hunaniaeth cenedlaethol Prydain, gan gynnwys erthyglau yn Twentieth Century British History, y Journal of Imperial and Commonwealth History a Diplomacy and Statecraft, penodau yn N. Hayes a J. Hill (gol.), Millions Like Us? British Culture in the Second World War (1999), P. Catterall et al. (gol.), Northcliffe's Legacy: Aspects of the Popular Press 1896-1996 (2000), a D. Welch a M. Connolly (gol.), a The Media at War (ar ei ffordd, 2004), a'r bennod 'Being British: creeds and cultures', yn K. Robbins (gol.), The Oxford Short History of the British Isles: The Twentieth Century 1901-1951 (2003). Ymhlith ei phrosiectau cyfredol mae hanes y cyfryngau torfol ym Mhrydain yr ugeinfed ganrif ac astudiaeth gymharol o bropaganda yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae Dr Nicholas wedi arolygu ymchwil uwchraddedig a doethurol ar amrywiaeth o bynciau ym maes hanes modern Prydain, ac y mae'n croesawu yn arbennig fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn gwneud ymchwil ym maes hanes diwylliant a'r cyfryngau, ac ar Brydain yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd.

Dr Paul O'Leary

Mae Dr Paul O'Leary, BA, PhD (Cymru) FRHistS [ppo@aber.ac.uk] yn arbenigwr ar hanes cymdeithasol a gwleidyddol Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, ac ar ymfudwyr Gwyddelig yn y Brydain fodern, ac y mae ganddo ddiddordebau ymchwil pellach mewn radicaliaeth a hunaniaeth genedlaethol. Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Hanes Frenhinol, yn gadeirydd Pwyllgor Hanes a'r Gyfraith y Bwrdd Astudiaethau Celtaidd, ac yn olygydd cyfres o fywgraffiadau gwleidyddol ar gyfer Gwasg Prifysgol Cymru. Ef yw awdur Immigration and Integration: the Irish in Wales, 1798-1922 (2000), a chydolygydd A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales (2003), ac ar hyn o bryd mae'n gweithio ar lyfr ar radicaliaeth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae Dr O'Leary wedi arolygu ymchwil uwchraddedig a doethurol yn y Gymraeg a'r Saesneg ar amrywiaeth o bynciau sy'n gysylltiedig â hanes cymdeithasol a gwleidyddol yr bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, gan gynnwys grwpiau ethnig (Gwyddelod; Iddewon); radicaliaeth; hanes cymdeithasol plismona; ac effaith rheilffyrdd ar gymdeithas; ac y mae'n croesawu cynigion ymchwil yn y meysydd hyn a rhai sy'n gysylltiedig â hwy.

Dr Martyn Powell

Mae Dr Martyn Powell, BA, PhD (Cymru), FRHistS [mpp@aber.ac.uk] yn arbenigo yn hanes Prydain ac Iwerddon yn y ddeunawfed ganrif. Mae ganddo ddiddordebau ymchwil yn y Chwigiaid Rockingham a Fox, dychanu gwleidyddol, a'r Ymherodraeth Brydeinig. Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Hanes Frenhinol, a'r Ymgynghorydd Golygyddol Hanes ar gyfer y British Journal for Eighteenth-Century Studies. Yn ddiweddar cyhoeddodd erthyglau ar Charles James Fox a pholisi Gwrthblaid Prydain ar Iwerddon yn Irish Historical Studies a Parliamentary History, a chyhoeddwyd ei lyfr cyntaf, Britain and Ireland in the Eighteenth-Century Crisis of Empire, yn 2002. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar astudiaeth o wleidyddiaeth ymborth yn Iwerddon yn y ddeunawfed ganrif. Mae Dr Powell yn hapus i arolygu gwaith uwchraddedig ar hanes Iwerddon, Prydain neu ymerodraeth yn y ddeunawfed ganrif.

Professor Roger Price

Mae'r Athro Roger Price, BA (Cymru), DLitt (E.Anglia), FRHistS [rdp@aber.ac.uk] yn arbenigo yn Ewrop y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn arbennig Ffrainc, ac y mae ei waith ymchwil cyfredol yn cynnwys gwaith ar arloesi technegol a diwydiannu, gwneud penderfyniadau entrepreneuraidd a'r dewis o ffynonellau grym diwydiannol. Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Hanes Frenhinol, yn aelod o Fwrdd Canolfan Brydeinig Astudiaethau Hanesyddol yn yr Almaen a Sefydliad Hanes Max Planck yn Göttingen, yn aelod Prydeinig cyfatebol o'r Societé d'Histoire de la Révolution de 1848 et des Révolutions du 19e Siècle, ac y mae ar fwrdd golygyddol y cylchgrawn French History. Ymhlith ei gyhoeddiadau, sydd wedi cael eu cyfieithu i nifer o ieithoedd, gan gynnwys Tsieineëg, mae The French Second Republic: a social history (1972); An Economic History of Modern France, c.1730-1914 (1981); The Modernisation of Rural France: communication networks and agricultural market structures in the 19th century (1983); A Social History of Nineteenth-Century France (1987); The Revolutions of 1848 (1988); A Concise History of France (1993); Documents on the French Revolution of 1848 (1996); Napoleon III and the Second Empire (1997); The French Second Empire: an anatomy of political power (2001); a People and Politics in France, 1848-70 (ar ei ffordd, 2004). Mae'r Athro Price wedi arolygu ymchwil uwchraddedig a doethurol ar amrywiaeth o agweddau ar Ewrop yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac y mae'n hapus i arolygu prosiectau yn y dyfodol ar y rhan fwyaf o agweddau hanes Ffrainc yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a hanes cymharol Ewrop.

Professor Richard Rathbone

Yr Athro Richard Rathbone, PhD (London) [R.J.A.R.Rathbone@btopenworld.com), yw'r Athro Hanes Ymweld yn Aberystwyth. Mae'n gweithio ar hanes modern Affrica ac Asia a chenedlaetholdeb a gwladychiaeth yn arbennig. Yn ogystal â'i safle er anrhydedd yn Aberystwyth, mae'n Athro Emeritws ac yn Athro Ymchwil Er Anrhydedd yn Ysgol Astudiaethau Dwyreiniol ac Affricanaidd Prifysgol Llundain lle bu'n dysgu am 34 mlynedd. Mae'n gwasanaethu ar fyrddau golygyddol African Affairs a History Compass, ac y mae'n Gymrawd ac yn aelod ar hyn o bryd o Gyngor y Gymdeithas Hanes Frenhinol. Ymhlith ei gyhoeddiadau mwyaf diweddar mae Ghana (1992) astudiaeth ddogfennol mewn dwy gyfrol ar ddiwedd rheolaeth drefedigaethol yn Ghana, Murder and Politics in colonial Ghana (1993), Nkrumah and the Chiefs; the politics of chieftaincy in Ghana, 1951-1960 (2003), a (gyda D. M. Anderson) Africa's Urban Past (2002). Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar ddeallusion Gorllewin Affrica yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'u dealltwriaeth o ethnograffeg, ac y mae hefyd wedi dechrau gweithio ar hanes modern Affrica. Byddai'n hapus i weithio gyda myfyrwyr sy'n dymuno astudio hanes 'an-Ewropeaidd' ac yn arbennig y rhai hynny sydd â diddordeb yn hanes caethwasiaeth, llunio hunaniaethau, cenedlaetholdeb, hanes syniadau a gwladychiaeth yn Affrica ac Asia.

Dr Michael Roberts

Mae Dr Michael Roberts, MA, DPhil (Oxon) [mfr@aber.ac.uk] yn arbenigo yn hanes cymdeithasol ac economaidd y Brydain fodern gynnar, yn arbennig hanes gwaith, hanesyddiaeth, y defnydd o ddelweddau gweledol a thestunau llyfrgell wrth bortreadu hanes, ac yn hanes merched a rhywedd. Mae'n Drysorydd Cymdeithas Hanes Cymdeithasol y DU sy'n lansio ei chylchgrawn newydd Cultural and Social History yn Ionawr 2004. Ymhlith ei gyhoeddiadau mae cyfraniadau i P. Corfield a D. Keene (gol.), Work in Towns 850-1850 (1990); S. Betts (gol.) Our Daughters' Land: Past and Present (1996), rhifyn arbennig y Labour History Review ar Gender and Work (Gwanwyn 1998), a (fel cydolygydd â Simone Clarke, cyn-fyfyrwraig Ph.D) Women and Gender in Early Modern Wales (2000). Ymhlith ei waith mwyaf diweddar mae cyfraniadau i'r casgliadau canlynol sydd ar eu ffordd: Simon Mealor a Philip Schwyzer (gol.), Archipelagic Identities: Writing Nation and Region in the Early Modern British Isles; Maria Ågren a Amy Erickson (gol.), The Marital Economy in Northern Europe, 1300-1800; a Penelope Lane, Neil Raven a Keith Snell (gol.), Gender, Work and Wages in England, 1600-1850. Mae ei waith cyfredol yn ymwneud â The Cultural Economy of Cambro-Britain. Mae Dr Roberts wedi arolygu myfyrwyr uwchraddedig a doethurol ar draws amrediad eang o bynciau modern cynnar, gan gynnwys brodwaith a sut y mae'n cyfleu syniadau merched; bywydau merched sengl a oedd yn gweithio ar eu ffermydd eu hunain; Crynwriaeth yng Nghymru a'r gororau; y farn Seisnig ar ferched yn y gwledydd Otoman; baledi Robin Hood a diwylliant poblogaidd; a nifer o astudiaethau cymunedau lleol. Mae'n arbennig o awyddus i groesawu myfyrwyr ymchwil sydd â diddordeb mewn ymchwilio i'r adnoddau llawysgrifol anferth sy'n cael eu tanddefnyddio yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mr Owen Roberts

Mae Mr Owen Roberts, BA (York), MA (Cymru) [ogr@aber.ac.uk] yn hanesydd ym maes Cymru a Phrydain yn Oes Fictoria a dechrau'r ugeinfed ganrif, ac y mae ganddo ddiddordebau ymchwil penodol mewn iechyd cyhoeddus yn y Brydain fodern, hanes yr amgylchedd (adnoddau dwr yn benodol), hanes trefol, a'r Gymru fodern ers 1850. Ymhlith ei gyhoeddiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg mae 'Public utility or private enterprise?: water and health in the nineteenth and twentieth centuries' (gyda Richard Coopey) yn A. Borsay (gol.), Medicine in Wales, 1800-2000 (2003), ac ar hyn o bryd mae wrthi'n paratoi ei lyfr cyntaf i'w gyhoeddi ar syniadau am iechyd a gwleidyddiaeth dinesig yn niwedd Oes Fictoria yng Nghymru. Mae Owen Roberts yn hapus i arolygu ymchwil yn y Gymraeg a'r Saesneg ar amrywiaeth o agweddau ar Gymru a Phrydain yn Oes Fictoria a dechrau'r ugeinfed ganrif, yn arbennig ym meysydd hanes trefol, hanes amgylcheddol a iechyd cyhoeddus.

Professor William D. Rubinstein

Mae'r Athro William D. Rubinstein, MA, PhD (Johns Hopkins), FRHistS [wdr@aber.ac.uk] yn arbenigwr ar hanes modern Prydain, yn arbennig hanes élites; a hanes Iddewiaeth fodern; mae ganddo hefyd ddiddordeb academaidd mewn pynciau hanesyddol poblyddol fel Jack the Ripper. Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Hanes Frenhinol ac yn Lywydd Cymdeithas Hanes Iddewig Lloegr. Ymhlith ei restr helaeth o gyhoeddiadau mae Elites and the Wealthy in Modern British History: Essays in Social and Economic History (1987); Capitalism, Culture, and Decline in Britain, 1750-1990 (1994); A History of the Jews in the English-Speaking World: Great Britain (1996); and The Myth of Rescue: Why the Democracies Could Not Have Saved More Jews from the Nazis (1997); mae hefyd wedi cyhoeddi llawer mewn cylchgronau hanesyddol, ac y mae'n cyfrannu'n rheolaidd i History Today. Ei lyfrau mwyaf diweddar yw Britain's Century: A Social and Political History, 1815-1905 (1998), (gyda Hilary Rubinstein), Philosemitism: Admiration and Support for Jews by Non-Jews in the English-Speaking World 1840-Present (1999), Modern Jewish History (2001), Twentieth Century Britain: A Political History (2003), a Genocide: A History (2004). Mae'r Athro Rubinstein wedi arolygu myfyrwyr uwchraddedig a doethurol ar amrywiaeth o bynciau yn gysylltiedig â hanes modern Prydain ac Iddewiaeth fodern, ac y mae'n hapus i arolygu ymchwil uwchraddedig yn y meysydd hyn yn ogystal ag ym meysydd hanes cymharol a hanes Awstralia.

Dr Phillipp Schofield

Mae Dr Phillipp Schofield, BA (London), DPhil (Oxon) [prs@aber.ac.uk] yn hanesydd ym maes hanes Saesneg diwedd yr Oesoedd Canol, yn arbennig hanes cymdeithasol, economaidd a demograffig. Mae'n awdurdod ar y werin Seisnig yn yr Oesoedd Canol ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae wedi canolbwyntio ar strwythur cymdeithasol y werin, y defnydd o'r gyfraith, natur y berthynas oddi mewn i gymunedau lleol a thu hwnt, a chredyd a dyled yng nghymdeithas y werin. Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Hanes Frenhinol, yn gyd-olygydd y cylchgrawn Continuity and Change. A journal of social structure, law and demography in past societies, ac y mae'n aelod o fwrdd golygyddol yr Agricultural History Review. Mae wedi cydweithio'n agos â chydweithwyr ym Mhrydain, Ewrop a Gogledd America, ac y mae'n cynnull y Seminar Eingl-Americanaidd bob tair blynedd, y prif gynulliad rhyngwladol i haneswyr cymdeithasol ac economaidd y cyfnod. Mae wedi cyhoeddi mewn cylchgronau hanesyddol blaenllaw, gan gynnwys Past and Present, Economic History Review a'r Agricultural History Review yn ogystal â mewn casgliadau o draethodau a thrafodion cynadleddau, ef yw awdur Peasant and Community in Medieval England a (fel cyd-olygydd) Credit and Debt in Medieval England (y ddau yn 2002), ac ar hyn o bryd mae'n ysgrifennu cyfrol Cymdeithas Selden ar gyfreitha personol mewn llysoedd maenorol gyda Dr Chris Briggs (Prifysgol Caergrawnt). Ar hyn o bryd mae Dr Schofield yn arolygu ymchwil uwchraddedig a doethurol ar gymdeithasau gwledig a threfi bychain yng Nghymru a Lloegr yn yr Oesoedd Canol, ac y mae'n hapus i ystyried cynigion ar gyfer pynciau ymchwil ar nifer o agweddau ar y gymdeithas wledig a'r economi ar ddechrau a diwedd yr Oesoedd Canol.

Dr Karen Stöber

Mae Dr Karen Stöber, MA, MPhil (Glasgow) PhD (Southampton) [kes@aber.ac.uk] yn arbenigo mewn hanes Prydain ar ddiwedd yr Oesoedd Canol a hanes Iwerddon, yn arbennig hanes mynachaidd rhwng y bedwaredd ganrif a Diddymu'r Mynachlogydd. Mae hi wedi gweithio'n helaeth hefyd ar bynciau crefyddoldeb lleygwyr a'r rhyngweithio rhwng yr eglwys a'r gymuned leyg, yn y cyd-destun mynachaidd ac yn y cyd-destun eglwysig ehangach, ac y mae ei hymchwil diweddar yn canolbwyntio ar ewyllysiau a dewisiadau claddu lleygwyr yn niwedd yr Oesoedd Canol a swyddogaeth yr uchelwyr fel noddwyr tai crefyddol. Yn ddiweddar cafodd ei hethol yn aelod o'r Gymdeithas Hanes

Frenhinol. Ymhlith ei chynlluniau cyhoeddi ar hyn o bryd mae arolwg gynhwysfawr o noddwyr yr holl fynachlogydd a'r lleiandai yng Nghymru a Lloegr rhwng 1300 a 1540, ac astudiaeth o un teulu o uchelwyr, y Montagues, ieirll Salisbury, yn niwedd yr Oesoedd Canol. Mae ei llyfr cyntaf, Late Medieval Monasteries and their Patrons: England and Wales, 1300-1540, asesiad o swyddogaeth lleygwyr fel noddwyr tai crefyddol, yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ar gyfer ei gyhoeddi. Mae Dr Stöber yn hapus i arolygu uwchraddedigion yn y Gymraeg a'r Saesneg, ym meysydd hanes eglwysig yn niwedd yr Oesoedd Canol, mynachaeth ganoloesol a'r uchelwyr Saesneg yn niwedd yr Oesoedd Canol.

Dr Steven Thompson

Prif ddiddordeb Dr Steven Thompson, BA, PhD (Cymru) [sdt@aber.ac.uk] yw hanes cymdeithasol ac economaidd Cymru a Phrydain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, ac y mae ganddo ddiddordebau ymchwil penodol yn hanes modern iechyd a meddyginiaeth, darparu lles cymdeithasol, a hanes llafur. Ef yw Ysgrifennydd Llafur: Cymdeithas Hanes Pobl Cymru. Ymhlith ei gyhoeddiadau diweddar mae erthyglau ar hanes meddygaeth yn Ceredigion, Llafur, Welsh History Review, Social History of Medicine and in A. Borsay (gol.), Medicine in Wales, c.1800-2000 (2003). Ymhlith y cyhoeddiadau sydd ar eu ffordd mae astudiaethau o ddarpariaeth dai a gwleidyddiaeth de Cymru, poblogrwydd beicio yn y 1890au a rhagor o waith ar hanes cymdeithasol ac economaidd meddygaeth. Mae Dr Thompson yn hapus i arolygu prosiectau ymchwil yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar unrhyw agwedd ar hanes meddygol, demograffig, llafur, neu merched, a hanes modern Cymru a Phrydain yn fwy cyffredinol.

Dr Björn Weiler

Mae Dr Björn Weiler, MA, PhD (St Andrews), FRHistS, [bkw@aber.ac.uk] yn arbenigo ym maes Prydain ac Ewrop yn yr Oesoedd Canol, c.1000-1300, yn arbennig diwylliant gwleidyddol yn Lloegr ac Ewrop; delweddau o frenhiniaeth; hanesyddiaeth ac ysgrifennu hanesyddol yn y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg; teyrnasiad Harri III o Loegr (1216-1272); a hanes gwleidyddol Lloegr yn y cyd-destun Ewropeaidd ehangach. Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Hanes Frenhinol, yn Gydgysylltydd Rhwydwaith Ymchwil yr Academi Frenhinol 'Political Culture in Norman and Angevin England in Comparative Perspective', ac y mae'n Ysgolhaig Cyswllt â'r Dutch Science Foundation a Katholieke Universiteit Nijmegen. Ymhlith ei gyhoeddiadau diweddar mae England and Europe in the Reign of Henry III (1216-1272) (2002) (cyd-olygydd ag Ifor W. Rowlands), King Henry III of England (1216-1272) and the Staufen Empire - Politics and Diplomacy in the Thirteenth Century (ar ei ffordd, 2004/5), ac erthyglau yn yr English Historical Review, Viator, Journal of Medieval History, a Historical Research. Ar hyn o bryd mae wrthi'n paratoi ei ail lyfr, Ritual and Politics in England, 1100-1250, i'w gyhoeddi, mae' n golygu casgliad o draethodau ar Representations of Power in Medieval Germany, 500 – 1500, ac y mae'n ymwneud â phrosiect i baratoi argraffiad newdd a chyfieithiad o Chronica Majora Matthew Paris, un o ffynonellau hanesyddol pwysicaf y Canoloesoedd Canol. Ar hyn o bryd mae Dr Weiler yn arolygu ymchwil uwchraddedig a doethurol ar hanes y seintiau crefyddol a'r gymdeithas Gymreig a'r Croesgadau, ac y mae'n hapus i arolygu ymchwil ar unrhyw agwedd ar hanes Seisnig neu Almaenig yn y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg, ysgrifennu hanesyddol yn ystod yr un cyfnod, neu ddelweddau a delfrydau brenhiniaeth yn Ewrop yng Nghanol yr Oesoedd Canol, yn arbennig ymchwil sy'n ceisio archwilio'r themâu hyn o gyfeiriad cymharol.

Dr Eryn White

Mae gan Dr Eryn White, BA, PhD (Cymru) [erw@aber.ac.uk] ddiddordebau ymchwil mewn hanes Cymru modern cynnar, yn arbennig crefydd, addysg, llythrennedd, merched a chymdeithas yng Nghymru'r ddeunawfed ganrif. Mae'n aelod o fwrdd golygyddol cyfres Astudiaethau mewn Hanes Cymru Gwasg Prifysgol Cymru. Hi yw awdur Praidd Bach y Bugail Mawr: Seiadau Methodistaidd De-orllewin Cymru 1737-50 (1995) a chyd-awdur Calendar of the Trevecka Letters (2003). Mae wedi cyfrannu i G.H. Jenkins (gol.), The Welsh Language before the Industrial Revolution (1997); M. Roberts ac S. Clarke, Women and Gender in Early Modern Wales (2000) ac i A. Fox and D. Woolf (gol.), The Spoken Word: Oral Culture in Britain, 1500-1850 (2002). Mae ei hymchwil cyfredol yn ymwneud ag agweddau poblogaidd tuag at yr Eglwys yng Nghymru ag effeithiau tymor hir cyfieithu'r Ysgrythurau i'r Gymraeg. Mae Dr White wedi arolygu myfyrwyr uwchraddedig a doethurol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ym maes hanes crefyddol a chymdeithasol Cymru, ac y mae'n croesawu cynigion ymchwil newydd yn y meysydd hyn.

Gwneud Cais i Aberystwyth

Am ffurflenni cais neu gwybodaeth pellach cysylltwch â:

Tiwtor Denu a Derbyn yr Uwchraddedigion
Adran Hanes a Hanes Cymru
Prifysgol Cymru Aberystwyth
Penglais
Aberystwyth
Ceredigion Cymru
DU SY23 3DY

Ffôn: +44 (0)1970 622662
E-bost: shn@aber.ac.uk

Neu
Swyddfa Derbyn Uwchraddedigion
Prifysgol Cymru, Aberystwyth
Yr Hen Goleg
Stryd y Brenin
Aberystwyth
Ceredigion Cymru
DU SY23 2AX

Ffôn: +44 (0)1970 622023
E-bost: pg-admissions@aber.ac.uk

Y mae cyngor llawn ar gael ym Mhrospectws Uwchraddedigion y Brifysgol, ac hefyd ar y safle gwe sy'n ymwneud ag Astudiaethau Uwchraddedig

Mae'r Adran Hanes a Hanes Cymru yn derbyn ceisiadau am astudiaethau uwchraddedig gydol y flwyddyn academaidd, a hyd at y Cofrestru (y drydedd wythnos ym Medi fel arfer). Fodd bynnag, efallai y bydd ymgeiswyr eisiau nodi'r dyddiadau allweddol dilynol:

- o diwedd Chwefror—y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau PhD sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer Dyfarniad Grant Prifysgol
- o canol Ebrill—y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am Ddyfarniadau ESRC (MA, PhD)
- o canol Gorffennaf—y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau MA sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer Bwrsari Adran

Mae dyddiadau penodol yn amrywio'n flynyddol, o'r herwydd rydym yn argymell fod ymgeiswyr yn cysylltu â'r Adran i gael rhagor o fanylion.

Mae aelodau o'r Adran bob amser yn falch o helpu ag ymholiadau ynglŷn ag astudiaethau uwchraddedig, boed hynny i helpu dewis cwrs Meistr trwy gwrs addas, neu i ddiffinio maes addas i'w archwilio trwy gyfrwng gradd ymchwil MPhil neu PhD. Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn y lle cyntaf gan Diwtor Derbyn Graddedigion yr Adran, all hefyd wneud trefniadau i chi ymweld â'r Adran, ac i acrhwilio'r posibiliadau ymchwil ag arbenigwyr penodol ar ein staff.

Cynhelir Diwrnod Agored bob blwyddyn i'r rhai hynny sydd â diddordeb mewn astudiaethau uwchraddedig, ym mis Tachwedd fel arfer. Mae hwn yn gyfle i ymweld â'r Adran, cyfarfod â'r rhai hynny a fyddai yn eich dysgu a'ch arolygu yn ystod eich ymchwil, ac i gael golwg ar ein cyfleusterau. Bydd cyngor arbenigol ar gael ar ddewis cwrs neu brosiect ymchwil addas, ffynonellau nawdd, ac ar lenwi ffurfflenni cais i sefydliadau a chyrff ariannu. Rydym yn cynghori'r rhai hynny sydd eisiau rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r Diwrnod Agored, neu sy'n bwriadu ywmeld â ni ar y Diwrnod Agored ei hun, gysylltu â'r Adran ymlaen llaw.

Y mae pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir ond ni all y Brifysgol dderbyn cyfrifoldeb am urnhyw wallau neu ddiffygion. Y mae cyrsiau'n cael ei adolygu'n gyson, ac nid yw pob cwrs a modiwl a nodi'r yma o reidrwydd ar gael bob blwyddyn.

Y mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei roi ar dudalennau We yr Adran ar http://www.aber.ac.uk/history

Tachwedd 2004